WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Methiannau o ran rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu – **Cyngor Cymuned Cynwyd**

Blwyddyn archwilio: 2015-16 i 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1113A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb yn gysylltiedig ag unrhyw swyddog, aelod neu unigolyn arall yn eu swyddogaeth unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Hughes a Deryck Evans dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Cynwyd.


Adroddiad cryno

Yn dilyn ymadawiad ei gyn-glerc, methodd Cyngor Cymuned Cynwyd â sicrhau ei fod yn cadw cofnodion priodol i ddangos ei fod yn rheoli'r arian cyhoeddus yr ymddiriedwyd iddo yn briodol 4

Cyflwyniad 4

Cyngor Cymuned Cynwyd 4

Fy ngwaith archwilio 4

Ar gyfer 2015-16 a 2016-17, mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 5

Yn ystod 2015-16 a 2016-17, ni chadwodd y Cyngor wefan ac felly methodd â chyhoeddi'n electronig wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi'n electronig yn ôl y gyfraith 6

O ystyried diffyg cofnodion priodol, byddaf yn cyflwyno barn archwilio amodol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 6

Argymhellion 6

Y camau nesaf 7

# Adroddiad cryno

## Yn dilyn ymadawiad ei gyn-glerc, methodd Cyngor Cymuned Cynwyd â sicrhau ei fod yn cadw cofnodion priodol i ddangos ei fod yn rheoli'r arian cyhoeddus yr ymddiriedwyd iddo yn briodol

### Cyflwyniad

1 Cyflwynir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyflwyno'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Cynwyd (y Cyngor). Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau yn y Cyngor.

2 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o berygl y bydd methiannau llywodraethu o'r fath yn codi eto. Mae gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Cymuned Cynwyd

3 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu cymuned Cynwyd yng Ngogledd Cymru. Mae ganddo ystod o bwerau yn ôl y gyfraith ac mae fel rheol yn codi rhyw £3,000 o incwm yn flynyddol gan dalwyr y dreth gyngor. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu heb glerc ers 2016.

4 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf), mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod y cyfrifon hynny'n cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi gofynion manwl eraill gan gynnwys amserlen ar gyfer cyflwyno ac archwilio cyfrifon a'r angen i'r Cyngor gyhoeddi cyfrifon wedi'u harchwilio erbyn 30 Medi bob blwyddyn. O wneud hyn, mae'r Cyngor yn atebol am yr arian cyhoeddus a reolir ganddo.

### Fy ngwaith archwilio

5 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau cymuned a thref yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol wedi ei gwblhau gan y cynghorau a'i gyflwyno i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cyngor eu paratoi a

datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

6 Bwriedir i fy ngwaith archwilio arferol fod yn gymesur i faint cynghorau tref a chymuned a'r symiau o arian cyhoeddus y maent yn eu rheoli. Dylai'r broses archwilio fod yn effeithlon a chaniatáu i gynghorau gyhoeddi cyfrifon a archwiliwyd yn unol â'r amserlen statudol ar gyfer cynghorau.

7 Oherwydd oedi cyn derbyn y datganiadau blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ac anawsterau dro ar ôl tro i gysylltu â'r cyn-glerc a chael gafael ar wybodaeth ganddo, cyfeiriodd yr archwilwyr enwebedig y Cyngor i mi. Ehangais gwmpas fy ngwaith oherwydd y risg uwch sy'n gysylltiedig â chwblhau a chyflwyno cyfrifon yn hwyr a methiannau i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth at ddiben yr archwiliad.

## Ar gyfer 2015-16 a 2016-17, mae'r Cyngor wedi methu â chynnal cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

8 Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol, sef y Clerc yn achos y Cyngor, benderfynu ar ran y corff, ar ôl ystyried arferion priodol, ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a chofnodion cyfrifyddu ategol, a'i systemau rheolaeth gyfrifyddu.

9 Nodir arferion priodol yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr. Mae'r arferion priodol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw llyfr arian parod neu lyfr cyfatebol er mwyn cofnodi trafodiadau, a chadw dogfennau gwreiddiol i ddarparu tystiolaeth i gadarnhau'r trafodiadau sydd wedi eu cofnodi yn y llyfr arian parod.

10 Dywedwyd wrthyf fod cyn-glerc y Cyngor, Mr Alwyn Jones Parry, wedi gadael y Cyngor yn 2016. Dywed y Cyngor ei fod wedi cael dau focs o wybodaeth gan Mr Parry ond bod y cofnodion yn anghyflawn. Mae Mr Parry wedi mynnu wrthyf ei fod wedi trosglwyddo'r holl waith papur i'r cadeirydd ar y pryd, y Cynghorydd Gwen Wyn, pan ymddeolodd o'r Cyngor.

11 Rhoddwyd llyfr arian parod papur i mi ond heb unrhyw anfonebau neu dderbynebau ategol. Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu cyfriflenni banc gwreiddiol. Cwblhaodd y Cyngor lyfr arian parod 2016-17 trwy ddefnyddio cyfriflenni banc wedi'u dyblygu.

## Yn ystod 2015-16 a 2016-17, ni chadwodd y Cyngor wefan ac felly methodd â chyhoeddi'n electronig wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi'n electronig yn ôl y gyfraith

12 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol sicrhau bod eu manylion cyswllt ac aelodaeth ar gael i'w gweld, yn ogystal â chofnodion eu trafodion drwy'r fewnrwyd. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon wedi'u harchwilio yn electronig

13 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholwyr.

14 Nododd fy archwiliad nad oes gan y Cyngor wefan a fyddai'n ei alluogi i gyhoeddi hysbysiadau a dogfennau eraill yn electronig.

## O ystyried diffyg cofnodion priodol, byddaf yn cyflwyno barn archwilio amodol ar gyfer 2015-16 a 2016-17

15 Rwy'n bwriadu cyflwyno'r farn archwilio ganlynol ar gyfer datganiad blynyddol 2015-16 a 2016-17:

**Tystysgrif ac adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i mi fod yn fodlon:

- bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi'n unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;
- bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol i'r cyfrifon;
- bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth lunio'r cyfrifon; a
- bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae'r methiant i gadw cyfrifon cyfrifyddu priodol fel a nodir uchod yn golygu na allaf ddod i gasgliad ynghylch pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn adran 1 o ddatganiadau blynyddol 2015-16 a 2016-17:

- yn cyflwyno'n briodol incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016 a 2017;
- yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol sy'n berthnasol i'r cyfrifon; ac
- wedi'u paratoi'n unol ag arferion priodol.

## Argymhellion

16 Mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau pwysig eisoes i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn yr archwiliad.

17 Mewn ymateb i fy nghanfyddiadau cychwynnol, nododd y Cyngor fod aelodaeth y Cyngor wedi newid ers y flwyddyn ariannol 2016-17. Dywed y Cyngor fod yr holl gofnodion talu, derbynebau a dogfennau yn gyflawn ers 2016-17.

18 Fodd bynnag, mae angen rhagor o welliannau i sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'r safonau a ddisgwylir gan gynghorau cymuned yng Nghymru. Felly, rwyf yn cynnig y tri argymhelliad isod i'r Cyngor:

Arddangosyn 1: argymhellion

Rwy'n gwneud tri argymhelliad ar gyfer gwella i'r Cyngor.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol** | |
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn sefydlu ac yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a systemau rheolaethau ariannol a mewnol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| **Gwefan** | |
| A2 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn sefydlu gwefan cyn gynted â phosibl i'w alluogi i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). |
| **Cyhoeddi dogfennau** | |
| A3 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn nodi pa ddogfennau y mae'n ofynnol iddo eu cyhoeddi'n electronig a gwneud trefniadau priodol i gyhoeddi'r dogfennau hyn ar ei wefan heb oedi. |

# Y camau nesaf

19 Mae'n ofynnol o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
- pha gamau i'w cymryd (os o gwbl) mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

20 Bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig wedyn a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf.

Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

19 Mehefin 2019

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru